# Rhaglen HMIC ar gyfer arolygiadau cyson ar luoedd heddlu

I ymgynghori arno

© HMIC 2014

www.hmic.gov.uk

# Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi

Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) yn cynnal asesiadau annibynnol ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd lluoedd heddlu a gweithgareddau plismona – yn amrywio o dimau cymdogaeth hyd droseddau difrifol i'r frwydr yn erbyn terfysgaeth – er budd y cyhoedd.

Wrth baratoi ein hadroddiadau, rydym yn gofyn y cwestiynau y byddai dinasyddion yn eu gofyn, ac yn cyhoeddi'r atebion ar ffurf hygyrch, gan ddefnyddio ein harbenigedd i ddehongli'r dystiolaeth. Rydym yn darparu gwybodaeth awdurdodol i ganiatáu i'r cyhoedd gymharu perfformiad eu llu heddlu dros amser ac ag eraill, ac fe ddefnyddir ein tystiolaeth i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth i'r cyhoedd.

Mae HMIC yn ymgynghori gyda sefydliadau eraill ac yn gweithio gyda nhw ar arolygu ac asesu lluoedd heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae gan HMIC hefyd hanes hir o gynnal arolygiadau ar y cyd gydag arolygiaethau eraill. Nid oes gan HMIC ddyletswydd statudol i arolygu comisiynwyr heddlu a throseddu a'u swyddfeydd, ond gallant gael eu comisiynu i arolygu gwasanaethau ar eu rhan.

## Ein cenhadaeth

Trwy arolygu, monitro a chynghori, hyrwyddo a hybu gwelliannau yn effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd plismona. Byddwn yn gwneud hyn yn annibynnol, yn broffesiynol a theg, gan ymladd dros fudd y cyhoedd bob amser, a byddwn yn esbonio beth yr ydym yn ei wneud a pham.

# Cynnwys


I ymgynghori arno .... 1

**Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi** **2**

Ein cenhadaeth .... 2

**Cynnwys** **3**

**Rhagair gan Brif Arolygydd Cwnstabliaeth EM** **4**

**Plismona yng Nghymru a Lloegr** **5**

**Yr angen am newid** **7**

**Y dull newydd: arolygiadau lluoedd cyfan** **9**

**Y dull arfaethedig** **11**

Trosolwg .... 11
Fframwaith asesu .... 11
Amledd a strwythur arolygiadau .... 13
Adrodd yn ôl .... 15

**Dyfarniadau ac argymhellion** **17**

Llunio dyfarniadau .... 17
Gwneud argymhellion .... 18

**Cydweithio ac egwyddorion partneriaeth** **20**

**Ochr ymarferol asesiadau PEEL** **22**

Casglu tystiolaeth .... 22
Adlewyrchu profiad y dioddefwr .... 23
Sicrhau ansawdd a chymedroli .... 24
Datblygu a chyhoeddi adroddiad .... 24
Sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth .... 26

**Asesu cyfamserol** **28**

**Yr ymgynghoriad** **30**

Cwestiynau'r ymgynghoriad .... 30
Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn .... 31
Sut yr adolygir yr ymatebion i'r ymgynghoriad .... 31

**Atodiad A Ymatebion – cyfrinachedd ac ymwadiad** **32**

**Atodiad B: Egwyddorion dylunio** **33**

# Rhagair gan Brif Arolygydd Cwnstabliaeth EM

Ym mis Tachwedd 2013, gofynnodd yr Ysgrifennydd Cartref i HMIC ddatblygu a gweithredu rhaglen newydd o arolygiadau blynyddol i’r holl luoedd heddlu gyda golwg ar asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd plismona yng Nghymru a Lloegr. Bydd yn gweld lluoedd heddlu yn cael eu barnu a’u gosod mewn un o bedwar categori: eithriadol, da, angen gwella neu annigonol.

Bydd hyn yn waith sylweddol iawn i’r arolygiaeth a bydd iddo oblygiadau mawr o ran plismona. Mae hi’n iawn felly i ni glywed barn cymaint o bobl a chyrff ag sy’n bosibl wrth i ni ddatblygu’r rhaglen ar gyfer yr asesiadau yma. Bydd yr asesiadau’n barnu a yw eich llu heddlu yn cynnig gwasanaeth effeithlon ac effeithiol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae HMIC wedi symud oddi wrth adolygu a rhoi adroddiadau ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd pob llu heddlu at ganolbwyntio ar faterion penodol ar draws gwasanaeth yr heddlu. Mae dull thematig ac ar sail risg wedi bod yn fodd o ymdrin â meysydd sydd o ddiddordeb sylweddol i’r cyhoedd a bydd raid i hynny barhau.

Mae plismona yn newid ac mae hyn yn golygu bod angen dull mwy cyson a hygyrch i’r cyhoedd o asesu ansawdd plismona yn ei gyfanrwydd yn eu hardal. Bydd hyn yn cyd-fynd â’r pwyslais cynyddol ar atebolrwydd lluoedd heddlu i’r cyhoedd trwy gomisiynwyr heddlu a throseddu sy’n cael eu hethol yn uniongyrchol.

Yn ychwanegol at arolygiadau ar faterion penodol, bydd HMIC yn nodi asesiad gwrthrychol a chynhwysfawr o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd plismona yn ardal pob llu heddlu. Bydd y rhaglen newydd o arolygiadau yn rhoi asesiad hawdd ei ddeall i’r cyhoedd o’r ffordd y mae eu llu heddlu yn perfformio.

Mae'r ddogfen hon yn nodi’r dull y bwriadwn ei ddefnyddio i gynnal yr asesiadau newydd yma. Rydym yn awyddus iawn i glywed eich barn. Trwy’r ddogfen gyfan, rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau a bydd eich ymateb yn sail i’r cam nesaf yn natblygiad y rhaglen.

Hoffwn ddiolch i chi ar ran Arolygwyr Ei Mawrhydi am roi’r amser i ddarllen y ddogfen hon ac edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymatebion.

**Thomas P Winsor**
**Prif Arolygydd Cwnstabliaeth EM**

# Plismona yng Nghymru a Lloegr

1 Dros y blynyddoedd diwethaf bu cryn ddiwygio sefydliadol, strwythurol a gweithredol ar blismona yng Nghymru a Lloegr. Ers 2010, mae'r diwygiadau sylweddol i sefydliadau'r heddlu wedi cynnwys:

- creu comisiynwyr heddlu a throseddu[1] er mwyn gwella atebolrwydd;
- sefydlu'r Coleg Plismona er mwyn gosod safonau, gwella proffesiynoldeb a datblygu gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio;
- sefydlu'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol i ddelio â throseddau difrifol a chyfundrefnol;
- rhoi rhagor o rym ac adnoddau i Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC); ac
- arolygiaeth sydd yn fwy annibynnol oddi ar y llywodraeth ac yn fwy annibynnol oddi ar y gwasanaeth heddlu.

2 Yn ychwanegol, gwelwyd newidiadau eang i delerau ac amodau gwasanaeth yr heddlu, a gwelwyd camau breision ymlaen o ran defnyddio technoleg, gan droseddwyr a swyddogion. Mae'r newidiadau yma gyda'i gilydd yn cyfateb i'r diwygiad mwyaf i'r heddlu ers bron i 100 mlynedd.

3 Y newid unigol mwyaf arwyddocaol o lawer oedd cyflwyno comisiynwyr yr heddlu a throseddu sy'n cael eu hethol yn ddemocrataidd, un ar gyfer pob ardal llu heddlu. Mae'r comisiynwyr wedi disodli'r awdurdodau heddlu ac maent yn gosod blaenoriaethau plismona trwy eu cynlluniau heddlu a throseddu lleol, yn gosod cyllideb ar gyfer eu llu heddlu, ac yn dal eu prif gwnstabliaid yn atebol.

4 Mae cyflwyniad y comisiynwyr wedi dod ynghyd â dileu targedau'r llywodraeth ac ail gadarnhad bod y cyfrifoldeb gweithredol yn perthyn i'r heddlu. Mae hwn yn symudiad oddi wrth atebolrwydd biwrocrataidd – pan fydd yr heddlu yn cael eu dal yn atebol trwy fonitro canolog ar dargedau a dangosyddion perfformiad – at atebolrwydd democrataidd lleol. Trwy'r comisiynwyr, mae gan y cyhoedd yn awr fwy o lais wrth bennu blaenoriaethau'r llu heddlu lleol.

[1] Defnyddir y term comisiynwyr heddlu a throseddu fel llaw fer i gyfeirio at y comisiynwyr heddlu a throseddu, Swyddfa'r Maer dros Blismona a Throseddu yn y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan a Chyngor Cyffredin Dinas Llundain.

5 Mae nifer o gyrff rheoleiddiol ac arolygu annibynnol sy'n craffu ar yr heddlu er budd y cyhoedd ac yn rhoi gwybodaeth am eu perfformiad. Cryfhawyd rôl y cyrff hyn, sy'n cynnwys HMIC a'r IPCC, fel rhan o'r symudiad at atebolrwydd democrataidd.

6 Mae deddfwriaeth yn cynnig sylfaen i rai o'r newidiadau hyn. Gwnaeth Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 nifer o newidiadau arwyddocaol i HMIC. Rhoddodd bwerau clir i Arolygwyr Ei Mawrhydi gael mynediad a hawl i gael gwybodaeth yn ogystal â llwybr uniongyrchol o ran atebolrwydd i'r Senedd a'r cyhoedd.

7 Roedd y newidiadau y gwnaeth San Steffan eu cofnodi mewn deddf yn adlewyrchu'r newid ym myd plismona – un lle na allai atebolrwydd democrataidd greu gwelliannau yn llwyddiannus oni bai fod y cyhoedd a'r comisiynwyr yn cael ymdeimlad clir, gwrthrychol a chadarn o'r hyn oedd yn digwydd yn eu llu heddlu.

## Yr angen am newid

8 Mae'r newidiadau sylweddol i atebolrwydd yr heddlu wedi gofyn i'r sefydliadau sy'n cefnogi'r broses, fel HMIC, adolygu'r ffyrdd y maen nhw'n gweithio i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol.

9 Mae rôl HMIC yn cyhoeddi gwybodaeth am ansawdd y gwasanaeth y mae lluoedd heddlu yn ei roi yn hwyluso mwy o graffu gan y cyhoedd. Mae'r wybodaeth hon yn sail ar gyfer deialog rhwng y cyhoedd a'u comisiynydd lleol – ond dim ond os yw'r wybodaeth yn hygyrch, yn hawdd ei deall ac yn trafod y materion y mae gan y cyhoedd ddiddordeb ynddyn nhw.

10 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae disgwyliadau'r cyhoedd o ran y wybodaeth y maen nhw yn ei derbyn am wasanaethau'r heddlu wedi newid yn sylfaenol. Mae'r cyhoedd yn defnyddio rhagor o wybodaeth, trwy fwy o sianeli, yn gyflymach ac yn rhwyddach nag erioed o'r blaen. Ym Mawrth 2014, cynhaliodd YouGov[2] bôl piniwn i dros 2,000 o aelodau'r cyhoedd ar ran HMIC i gael eu barn am wybodaeth perfformiad am yr heddlu. Rydym yn gwybod, trwy'r pôl piniwn hwn, bod mwyafrif y cyhoedd am gael gwybodaeth ond ychydig sy'n teimlo eu bod yn wybodus am yr heddlu.

11 Rhaid i'r wybodaeth y mae HMIC yn ei rhoi drafod pob agwedd ar blismona a rhaid iddi ystyried cymhlethdodau plismona yn y cyfnod modern. Mae'r galw am wasanaethau'r heddlu yn newid, fel y mae natur troseddau. Mae'r rhyngrwyd a'r dechnoleg gysylltiedig wedi creu amodau lle mae mwy o gyfle i droseddwyr weithredu mewn amgylchedd y maen nhw'n ei gredu sy'n fwy diogel, a lle mae'r cyfleoedd i droseddu ar gael yn fwy rhwydd neu mae mwy ohonyn nhw. Gwnaeth y rhyngrwyd hi'n bosibl i fathau newydd o droseddu ddigwydd, ac mae wedi cynyddu nifer y dioddefwyr posibl.

12 Rhaid i arolygiadau hefyd fedru canfod arwyddion cynnar o broblemau systematig ar draws lluoedd heddlu a allai arwain at broblemau fel y gwelwyd yn ysbyty Canol Swydd Stafford[3]. Gwelodd yr ychydig flynyddoedd diwethaf nifer o ddadleuon a datgeliadau difrifol a negyddol yng nghyswllt ymddygiad rhai swyddogion heddlu – er enghraifft, yr ymddygiad a ddatgelwyd gan Ymchwiliad Leveson a chasgliadau panel annibynnol Hillsborough. Rhaid i

[2] Arolwg YouGov Heb ei Gyhoeddi, Mawrth 2014
[3] *Report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Inquiry,* Syr Robert Francis QC, Llundain, 2013

arolygiadau roi perfformiad mewn cyd-destun, gan edrych ar degwch a phriodoldeb prosesau llu heddlu, nid ei effeithiolrwydd yn unig.

13 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae HMIC wedi monitro effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd lluoedd heddlu trwy ddadansoddiad manwl o berfformiad a data ariannol a thrwy arolygiadau systematig, gan ganolbwyntio ar y meysydd lle mae mwyaf o risg, sydd bwysicaf i'r cyhoedd a phan fydd pethau wedi mynd o chwith. Yn ein barn ni mae cydbwysedd arolygiadau wedi mynd ormod tuag at arolygiadau thematig. Mae cael mynediad at asesiadau cymharol o berfformiad lluoedd heddlu dros gyfnod o flynyddoedd yn caniatáu i luoedd heddlu a'r cyhoedd ddynodi, asesu a monitro gwelliannau neu ddirywiad yn y gwasanaeth. Nid yw arolygiadau thematig, oni bai eu bod yn cael eu hailadrodd yn gyson, yn cynnig y dadansoddiad systematig dros amser sy'n rhoi'r darlun cyfoethog sy'n angenrheidiol ar gyfer atebolrwydd democrataidd, na'r cymhelliant i luoedd heddlu wella o flwyddyn i flwyddyn.

14 Fel y dangosodd enghraifft ysbyty Canol Swydd Stafford, mae gan sefydliadau cyhoeddus eu hymdeimlad eu hunain o hunaniaeth a nodweddion sydd wedi deillio o'u harweinwyr, eu gwaith a'u hanes. Gyda'r rhain daw cryfderau a gwendidau cynhenid. Yn aml bydd y cryfderau a'r gwendidau yma yn rhan o'r sefydliad ac efallai na fyddant yn cael digon o sylw mewn unrhyw arolwg thematig sy'n canolbwyntio ar un mater yn unig.

15 Mae'n hanfodol fod y rhai sy'n dal yr heddlu i gyfrif – y cyhoedd a'r comisiynwyr – yn cael asesiad dibynadwy, diduedd ac arbenigol o effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb swyddogaethau plismona craidd. Yr her yw cynnig hyn heb gynyddu'r gofynion i luoedd heddlu yn ddiangen a pharhau i roi asesiadau manwl o'r prif faterion sy'n peri pryder yn ôl y gofyn. Bydd hyn yn gofyn am newid nid yn unig yn yr hyn a wnawn, ond hefyd, yn allweddol, yn y ffordd y byddwn yn ei wneud.

## Y dull newydd: arolygiadau lluoedd cyfan

16 Er mwyn cyflawni'r sialensiau hyn, fel yr ydym yn nodi yn yr ymgynghoriad ar ein rhaglen arolygu 2014/15[4], bydd HMIC yn cynnal rhaglen flynyddol newydd o arolygiadau lluoedd cyfan. Bydd yr arolygiadau yn cynnig asesiadau hygyrch, blynyddol annibynnol o berfformiad lluoedd heddlu. Byddant yn ei gwneud hi'n bosibl i weld, wrth edrych ar nifer fach o gategorïau hawdd eu deall o weithgaredd yr heddlu ac asesiad o hynny, pa mor dda mae'r lluoedd heddlu yn perfformio.

17 Prif nodau'r rhaglen yw:

- gwella atebolrwydd democrataidd effeithiol;
- archwilio mewn ffordd sy'n arwain at y gwelliant mwyaf ymarferol gweladwy mewn gwasanaethau plismona; a
- rhoi cymorth wrth adnabod problemau yn gynnar iawn ac felly lleihau'r perygl o fethiant.

18 Bydd y rhaglen arolygu yn rhoi gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd ar draws ystod o swyddogaethau plismona. Bydd hyn yn helpu lluoedd heddlu i weithio ar welliannau yn eu perfformiad eu hunain trwy gymharu â'r rhai sy'n perfformio orau. Bydd yn cefnogi comisiynwyr wrth iddynt ddal eu prif gwnstabliaid i gyfrif a lleihau'r angen i gomisiynwyr gynnal asesiadau cyson. Bydd yn cynorthwyo'r cyhoedd i ddal y comisiynwyr i gyfrif.

19 Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar dair prif thema:

- effeithlonrwydd: pa mor dda y mae lluoedd heddlu yn rhoi gwerth am arian;
- effeithiolrwydd: pa mor dda y mae pob llu heddlu wrth leihau troseddu, o ymddygiad gwrthgymdeithasol i ddiogelu pobl fregus a throseddau cyfundrefnol; a
- chyfreithlondeb: pa mor dda y mae pob llu heddlu yn darparu gwasanaeth sy'n deg ac yn trin pobl yn briodol.

20 Mae'r ddwy thema gyntaf yn adlewyrchu cyfrifoldeb statudol Prif Arolygwr Cwnstabliaeth EM am roi asesiad blynyddol o effeithlonrwydd ac

[4] Rhaglen Arolygu Arfaethedig 2014/15 HMIC i ymgynghori arni, HMIC, Llundain 2014

effeithiolrwydd plismona yng Nghymru a Lloegr (adran 54(4A), Deddf yr Heddlu 1996). Mae cyfreithlondeb y gwasanaeth heddlu yn ganolog i'w effeithiolrwydd, ac mae'n ddigon pwysig i deilyngu trydedd thema.

21 Bydd yr enw a roddir ar y rhaglen newydd yn adlewyrchu'r themâu hyn. Yr enw a roddir ar yr arolygiadau fydd asesiadau Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu, neu asesiadau PEEL.

22 Wrth gynllunio'r rhaglen asesu PEEL, mae HMIC wedi cael cydweithrediad a chymorth adeiladol y comisiynwyr, lluoedd heddlu, y Coleg Plismona a'r Swyddfa Gartref, ynghyd ag arolygiaethau eraill ac uwch academyddion ac rydym wedi cynnal pôl piniwn cyhoeddus. Mae'r gwaith hwn ar y cyd wedi ein helpu i gynllunio'r rhaglen arolygu newydd mor gadarn ac effeithlon â phosibl i fodloni anghenion y cyhoedd. Defnyddiodd y tîm y cyswllt hwn â'r cyrff gwahanol i sefydlu nifer o egwyddorion cynllunio a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r dull arfaethedig. Gellir gweld yr egwyddorion hyn yn Atodiad B ar ddiwedd y ddogfen hon.

23 Bydd rhaglen asesu PEEL yn rhoi gwaelodlin gadarn i HMIC roi sylwadau ar hyd a lled plismona. Bydd yn lleihau'r angen am arolygiadau thematig ychwanegol a dylai, dros amser, arwain at leihad yn y gofynion arolygu yr ydym yn eu rhoi ar luoedd heddlu.

24 Diben yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn ar y dull y mae'r HMIC yn ei ddefnyddio i wneud asesiadau PEEL a'r ffordd y bydd yr asesiadau PEEL yn cael eu cyflwyno.

# Y dull arfaethedig

## Trosolwg

25 Mae'r HMIC yn cynnig yr egwyddorion canlynol fel sylfaen i'r dull o gynnal asesiadau PEEL.

- Bydd asesiadau'n cwmpasu'r holl weithgareddau y mae lluoedd heddlu yn ymgymryd â nhw.
- Bydd cysondeb yn y modd y cwblheir asesiadau ar wahanol luoedd heddlu a'r dull o adrodd yn ôl arnynt. Bydd proses gymedroli gadarn er mwyn medru dwyn cymariaethau cryf rhwng gwahanol luoedd heddlu.
- Seilir yr arolygiadau'n bennaf ar dystiolaeth ansoddol (h.y. gwybodaeth ddisgrifiadol). Defnyddir data meintiol i gefnogi arolygiadau.
- Bydd profiadau'r cyhoedd – a dioddefwyr yn enwedig – o'r heddlu yn ganolog i'r gwaith o wneud asesiad.

## Fframwaith asesu

26 Bydd yr HMIC yn adeiladu ar y fframwaith monitro sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer lluoedd heddlu, gan seilio asesiadau PEEL ar set o gwestiynau craidd. Bydd y cwestiynau wedi eu grwpio o amgylch themâu PEEL o effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb, yn unol â'r hyn a nodir isod.

(a) Effeithlonrwydd

1. A yw'r llu heddlu'n gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd ei adnoddau gweithredol?
2. A yw'r llu heddlu mewn sefyllfa ariannol gadarn ar gyfer y tymor byr a'r hirdymor?
3. A oes gan y llu heddlu fodel o weithlu cynaliadwy ar gyfer y cyfnod o adolygiad cynhwysfawr o wariant a thu hwnt?
4. A oes gan y llu heddlu'r gallu angenrheidiol i arwain?

(b) Effeithiolrwydd

5. Pa mor effeithiol yw'r llu heddlu wrth leihau ac atal troseddu?
6. Pa mor effeithiol yw'r llu heddlu wrth ymchwilio i droseddu?

7. Pa mor effeithiol yw'r llu heddlu wrth ddiogelu'r rhai sydd yn y perygl mwyaf o ddioddef niwed?

8. Pa mor effeithiol yw'r llu heddlu wrth ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol?

9. Pa mor effeithiol yw'r llu heddlu wrth ymdrin â throseddau difrifol, cyfundrefnol a chymhleth?

10. Pa mor effeithiol yw'r llu heddlu wrth gwrdd â'i ymrwymiadau dan y Gofyniad Plismona Strategol[5]?

11. Pa mor effeithiol yw'r llu heddlu wrth fynd ati i sicrhau diogelwch y cyhoedd?

(c) Cyfreithlondeb

12. Beth yw barn gyffredinol y cyhoedd am y llu heddlu?

13. Pa mor effeithiol yw'r llu heddlu wrth ymateb pan fydd aelod o'r cyhoedd yn galw am wasanaeth?

14. Pa mor dda y mae'r llu heddlu yn cwrdd â'i gyfrifoldeb i drin pobl yn gyfartal a heb wahaniaethu?

15. A yw gweithlu'r llu heddlu'n gweithredu ag uniondeb?

16. A yw'r data a'r wybodaeth a ddarperir gan y lluoedd heddlu ynglŷn â'u gwaith o safon uchel?

27 Bydd y fframwaith yn cael ei ymestyn i ddarparu asesiadau mwy cynhwysfawr. Yn ychwanegol i'r 16 cwestiwn, bydd yr Asesiadau'n ystyried:

- y cyd-destun lleol i adlewyrchu'r gofynion gwahanol sy'n wynebu lluoedd heddlu, y gwahanol flaenoriaethau a osodir gan y comisiynwyr heddlu a throseddu, a'r trefniadau cydweithredu a phartneriaeth sydd mewn grym gan y lluoedd heddlu; a'r

- ffactorau sefydliadol sy'n gyrru perfformiad sefydliadol, megis: arweiniad, goruchwyliaeth a rheoli; diwylliant sefydliadol; hyfforddiant; dyrannu adnoddau, y defnydd o dechnoleg; a sut mae lluoedd heddlu yn dysgu, gwella ac arloesi.

[5] *Gofyniad Plismona Strategol*, Llywodraeth EM, Llundain, 2012

## Amledd a strwythur arolygiadau

28 Bydd pob llu heddlu’n cael ei arolygu ac adrodd arno ddwywaith y flwyddyn fel rhan o raglen PEEL.

- Bydd Arolygiad 1 yn ymwneud ag effeithiolrwydd. Bydd yn canolbwyntio’n fanwl ar ba mor effeithiol y mae lluoedd heddlu yn atal a lleihau troseddu, a pha mor effeithiol y gallant ymchwilio i droseddau yng nghyd-destun y galw sydd arnynt a blaenoriaethau lleol.

- Bydd Arolygiad 2 yn ymwneud ag effeithlonrwydd. Bydd yn ystyried sut mae lluoedd heddlu yn darparu gwerth am arian, sut maent yn gwneud y defnydd gorau o’u hadnoddau i gyflawni’r canlyniadau cywir ar gyfer cymunedau lleol, ac a yw eu cynlluniau’n gynaliadwy am y blynyddoedd nesaf.

- Bydd y ddau arolygiad yn cwmpasu elfennau o gyfreithlondeb, ynghyd â ffactorau sefydliadol a chyd-destun lleol.

29 Wedyn bydd canlyniadau’r ddau arolygiad yn cael eu cyfuno i greu un asesiad cynhwysfawr.

| **Effeithlonrwydd** | **Effeithiolrwydd** | **Cyfreithlondeb** |
| --- | --- | --- |

Ffactorau sefydliadol a chyd-destun lleol

**Arolygiad 1**
Effeithiolrwydd ac:

- elfennau o Gyfreithlondeb;
- ffactorau sefydliadol; a
- chyd-destun lleol.

**Arolygiad 2**
Effeithlonrwydd ac:

- elfennau o Gyfreithlondeb;
- ffactorau sefydliadol; a
- chyd-destun lleol.

**Asesiad integredig llawn**

**Ffigur 1: Strwythur arolygiadau PEEL**

30 Bydd y dull hwn o arolygu ddwywaith y flwyddyn yn cynnig cyfle i ailymweld â materion pan ddaw yn amlwg ar ôl yr arolwg cyntaf bod angen rhagor o wybodaeth. Bydd hefyd yn golygu na fydd lluoedd heddlu yn cael eu cosbi o ganlyniad i'w sefyllfa yn yr amserlen arolygu. Er enghraifft, ni fydd arolygiadau yn cael eu cyfyngu i un cipolwg ar lu heddlu ar bwynt penodol yn y cylch blwyddyn ariannol a chynllunio busnes.

31 Bydd ein dull arfaethedig, ynghyd â chadw peth gallu i gynnal adolygiadau thematig, hefyd yn golygu bod HMIC mewn sefyllfa i ddynodi ac ymchwilio i dueddiadau cenedlaethol mewn plismona yn gynnar.

## Adrodd yn ôl

32 Rydym yn bwriadu cynhyrchu adroddiad ar ôl pob arolygiad fydd yn cynnwys dyfarniad ar elfennau unigol o’r fframwaith asesu. Yna bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu casglu ynghyd i roi asesiadau blynyddol ar y tair thema, ynghyd â barn ar iechyd trefniadol y llu heddlu o ran arweiniad a rheolaeth. Byddwn yn defnyddio asesiadau PEEL ac unrhyw adroddiadau arolygu eraill ar feysydd penodol o blismona i roi trosolwg cenedlaethol o blismona.

**Cwestiynau’r ymgynghoriad**

**C1. Beth yw’ch barn chi am y dull a gynigir? Sut ellid ei wella?**

**C2. A oes unrhyw agweddau eraill o waith yr heddlu yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys mewn arolygiadau PEEL? Os felly, pa rai ydynt?**

**Ffigur 2: Llinell amser rhaglen arolygu PEEL**

# Dyfarniadau ac argymhellion

## Llunio dyfarniadau

33 Mae HMIC wedi ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid a ddylai asesiadau PEEL roi dyfarniad ar y gwasanaethau sy'n cael eu harolygu. Mae'r adborth yn glir y dylem. Dengys adolygiad ar draws yr arolygiaethau bod nifer o ffyrdd i lunio barn. Ond, mae dau linyn cyffredin yn y dulliau a ddefnyddir:

- tryloywder yn y meini prawf dyfarnu; a
- dyfarniadau yn cael eu seilio'n glir ar y dystiolaeth sydd ar gael.

34 Mae'r HMIC yn cynnig defnyddio pedwar dyfarniad: dau gadarnhaol a dau negyddol. Dyfarnir mewn perthynas â'r tair thema sef effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb, yn ogystal ag elfennau unigol o'r fframwaith arolygu. Mae'r dyfarniadau'n adlewyrchu'r eirfa a ddefnyddir gan Ofsted. Yn ddiweddar ymgynghorodd y Comisiwn Ansawdd Gofal ar gynnig yn seiliedig ar fodel tebyg. Y dyfarniadau fydd:

- eithriadol;
- da;
- angen gwella; ac
- annigonol.

35 Wrth wneud y dyfarniadau yma bydd arolygwyr yn ystyried:

- a yw safon y plismona yn dda, neu yn rhagori digon ar y safon i gael ei ddyfarnu yn eithriadol;
- a yw'r llu heddlu angen gwella mewn maes penodol gan nad yw eto yn perfformio ar lefel dda, a/neu mae rhai gwendidau yn y sefydliad; neu
- a yw perfformiad y llu heddlu mewn maes penodol yn annigonol oherwydd ei fod yn sylweddol is nag y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol.

36 Byddwn yn cyhoeddi meini prawf er mwyn medru egluro'r modd y byddwn yn dyfarnu. Byddwn yn seilio meini prawf y dyfarniadau ar safonau proffesiynol pan fyddant yn bodoli. Bydd gwybodaeth ychwanegol yn dod gyda'r dyfarniadau a fydd yn cynnwys sylwadau ar y cyd-destun lleol, ac a yw'r llu heddlu dan sylw'n gwella neu'n gwaethygu.

37 Os dyfernir bod llu heddlu'n annigonol ar un neu fwy o'r themâu, rydym yn cynnig y camau canlynol.

- Rhoddir yr heddlu dan adolygiad ffurfiol yn awtomatig gan Grŵp Monitro Troseddau a Phlismona'r HMIC[6].
- Dylid monitro'r cynnydd yn y gwaith o ddatrys y problemau a ddynodwyd yn ofalus gan Arolygydd perthnasol Ei Mawrhydi (HMI).
- Gall gwaith arolygu dilynol ddigwydd (a chyhoeddi'r canlyniadau hynny), hyd yn oed cyn ymweld â'r llu heddlu unwaith eto fel rhan o'r rownd nesaf o arolygiadau arferol. Gwneir hyn yn ôl disgresiwn yr HMI, yn ddibynnol ar natur y problemau a ganfyddir.
- Byddai methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol hyn yn arwain at ddringo trwy gamau'r broses fonitro (h.y. llythyr at y comisiynydd ac, yn y pen draw, atgyfeirio at yr Ysgrifennydd Cartref).

38 Byddai'r dull hwn yn cael ei roi ar waith petai'r llu heddlu'n cael ei bennu'n annigonol yn unrhyw un o'r tair thema PEEL. Gall amgylchiadau godi hefyd pan fydd dyfarniad 'angen gwella' yn sbarduno'r dull hwn. Bydd y penderfyniad yn seiliedig ar feini prawf clir, bydd yn dryloyw, ac yn y pen draw cyfrifoldeb yr Arolygydd perthnasol fydd y penderfyniad.

## Gwneud argymhellion

39 Bydd gwneud argymhellion yn helpu'r HMIC i gyflawni dau o'r tri amcan rhaglen PEEL: arolygu mewn modd sy'n arwain at welliant, a chynorthwyo i ganfod problemau yn gynnar. Bydd HMIC yn medru dynodi themâu cyffredin sy'n dod i'r golwg o argymhellion y llu a thanlinellu adegau pan all ymateb cenedlaethol fod yn addas.

40 Mae'r HMIC wedi ymrwymo i wneud argymhellion pan fydd asesiad wedi amlygu bod problem glir sydd angen ei datrys. Rydym yn cynnig hefyd gwneud argymhellion yng nghyswllt y meysydd hynny y gellid eu gwella. Yn ogystal â gwneud argymhellion i luoedd heddlu, bwriadwn wneud argymhellion i gyrff eraill, megis y Swyddfa Gartref a'r Coleg Plismona, pan fydd materion a gyfyd o'r arolygiadau angen sylw gan y cyrff hynny.

[6] Grŵp yw hwn a arweinir gan yr HMIC sy'n hysbysu swyddogion y Swyddfa Gartref, cynrychiolwyr prif gwnstabliaid Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ynglŷn â'r meysydd hynny a all, ym marn broffesiynol yr HMIC, greu risg sylweddol i'r cyhoedd.

**C3.** **A ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i ddefnyddio pedwar categori ar gyfer dyfarnu? Os nad ydych, sut ellid ei wella?**

**C4.** **A ydych chi'n cytuno â'r dull a gynigir ar gyfer y lluoedd heddlu hynny sy'n cael dyfarniad eu bod yn annigonol? Sut ellid ei wella?**

**C5.** **A oes yna unrhyw beth arall y dylem ei gynnwys yn ein hargymhellion i sicrhau y byddent yn arwain at welliant?**

## Cydweithio ac egwyddorion partneriaeth

41 Nid yw lluoedd heddlu yn rhoi gwasanaethau plismona lleol ar eu pen eu hunain. Mae pob llu heddlu yn cymryd rhan mewn partneriaethau strategol lleol, ac mae'r rhan fwyaf yn cydweithio gyda lluoedd heddlu eraill, cyrff cyhoeddus eraill a'r sector preifat erbyn hyn. Maen nhw'n cydweithio ar agweddau arwyddocaol o'r gwasanaeth, yn amrywio o rannu swyddogaethau swyddfa gefn i weithgareddau rheng flaen, fel defnyddio Uned Gefnogaeth Awyr Genedlaethol yr Heddlu ac ymdrin â throseddau difrifol a chyfundrefnol.

42 Mae llawer o'r trefniadau yn gymhleth ac, er bod fframwaith statudol i'w ddilyn (adrannau 22A i 23I, Deddf yr Heddlu 1996 ac adrannau 5 i 7, Deddf Heddlu ac Anhrefn 1998), nid oes dull na threfniant cydweithio neu bartneriaeth safonol. Mae'n bwysig i asesiadau PEEL fod yn ddigon hyblyg i gynnwys holl amrywiaeth y trefniadau hyn. Rydym felly'n cynnig yr egwyddorion canlynol.

- Byddwn yn ystyried trefniadau cydweithio er mwyn lleihau'r gofynion yn ystod arolygiad.
- Yn y tymor hirach, bydd datganiadau rheoli lluoedd heddlu yn dynodi trefniadau cydweithio a phartneriaeth lleol y bydd angen i HMIC gael gwybod amdanynt. (Gweler tudalen 22 isod am fwy o fanylion am ddatganiadau rheoli lluoedd heddlu.)
- Gall trefniadau cydweithio gynnig mwy o fanteision i rai lluoedd heddlu nag eraill, felly bydd yn bosibl llunio barn wahanol mewn lluoedd heddlu gwahanol am yr un trefniant cydweithio.
- Ni fydd asesiadau PEEL yn barnu ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd partneriaethau lleol – mae hyn tu hwnt i gylch gorchwyl HMIC – ond bydd yn rhoi sylwadau ar gyfraniad y llu heddlu at y partneriaethau a'r manteision a gafwyd ohonynt.
- Yn yr un modd ag y bydd HMIC yn rhoi sylwadau ar benderfyniadau y mae comisiynydd yn eu gwneud os byddant yn cael effaith (drwg neu fanteisiol) ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd lluoedd heddlu, bydd HMIC yn datgan os bydd penderfyniadau sefydliad arall yn atal neu yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd llu heddlu.

43 Bydd yr HMIC yn gweithio'n agos ag arolygiaethau sy'n bartneriaid perthnasol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu dynodi materion perthnasol yn gywir cyn ac ar ôl arolygiadau. Bydd HMIC yn gweithio gydag arolygiaethau eraill fel ei bod yn y sefyllfa orau ar gyfer dibenion asesiadau PEEL i ystyried unrhyw beth sy'n cael dylanwad ar y gwasanaeth sy'n cael ei roi. Yn fwy penodol byddwn yn:

- dynodi gwybodaeth berthnasol cyn arolygu fel ein bod yn deall y cyd-destun ac yn gallu cyfeirio ein gwaith yn ôl hynny;

- sicrhau bod ein gwaith yn cynorthwyo arolygiaethau eraill, yn arbennig trwy roi gwybodaeth ar gyfer unrhyw asesiadau neu argymhellion y gall arolygiaethau partner eu gwneud i sefydliadau lleol eraill; a

- phan fydd yn briodol, ystyried defnyddio pwerau sydd ar gael dan Atodlen 4A o Ddeddf yr Heddlu 1996 i archwilio cyfleoedd a'r angen i weithio ar y cyd, cymryd pwerau neu eu dirprwyo i arolygiaethau eraill.

| | |
|---|---|
| **C6.** | **A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dull a gynigiwn i arolygu trefniadau llunio partneriaeth a chydweithio?** |

# Ochr ymarferol asesiadau PEEL

44 Yn yr un modd â lluoedd heddlu, rhaid i ni wneud ein gwaith yn effeithlon, yn effeithiol a gyda chyfreithlondeb. Nid yn unig y bydd hyn yn berthnasol i'r hyn a wnawn ond i'r ffordd y byddwn yn cyflawni hynny hefyd. Mae cyflwyno asesiadau PEEL yn cynnig cyfle i adeiladu ar yr elfennau hynny o'n harolygiadau sy'n gweithio'n dda a rhoi'r gorau i'r rhai nad ydynt.

## Casglu tystiolaeth

45 Gwrandawodd HMIC ar bryderon y lluoedd heddlu, a fwydwyd yn ôl trwy wahanol sianeli gan gynnwys yr ymgynghoriad ar raglen arolygu HMIC [7], am y data a'r wybodaeth y maent yn eu darparu yn ystod arolygiad. Wrth i asesiadau PEEL ddechrau, ein nod fydd newid ein dull o arolygu er mwyn lleihau'r gofynion diangen ar luoedd heddlu. Fe wnawn hyn trwy:

- ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus pan fydd hynny'n bosibl;
- weithio gyda lluoedd heddlu i wneud mwy o ddata ar gael i'r cyhoedd trwy ddatganiadau rheoli lluoedd heddlu (gweler isod);
- gyflwyno templedi clir, hawdd eu deall i nodi pa wybodaeth sydd arnom ei hangen;
- fod yn gyson pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl;
- baratoi yn drylwyr i ganolbwyntio ein gwaith maes a gwneud y defnydd gorau o amser y lluoedd heddlu;
- defnyddio arolygiadau dirybudd pan fydd hynny'n briodol er mwyn lleihau gwaith paratoadol diangen neu amhriodol gan luoedd heddlu; a
- defnyddio technoleg i sicrhau bod rheolaeth y data'n effeithlon ac yn osgoi dyblygu.

46 Yn ei Adolygiad Annibynnol o Gydnabyddiaeth ac Amodau Gwaith Swyddogion a Staff yr Heddlu (2012)[8], argymhellodd Tom Winsor y dylai

[7] *Rhaglen Arolygu HMIC 2014/15*, HMIC, Llundain 2014.

[8] *Adolygiad Annibynnol o Gydnabyddiaeth ac Amodau Gwaith Swyddogion yr Heddlu a Staff,* Cmnd 8024, 2012.

HMIC sefydlu templed cenedlaethol ar gyfer datganiad rheoli lluoedd heddlu, i'w gyhoeddi gan bob llu heddlu yn ei adroddiad blynyddol. Nododd yr argymhelliad y dylai'r datganiad gynnwys data am:

- y galwadau a ragwelir ar y llu heddlu yn y tymor byr, canolig a hir;
- gynlluniau ar gyfer diwallu'r galwadau hynny, gan gynnwys cynlluniau ariannol; a
- chamau y mae'r llu heddlu yn bwriadu eu cymryd i wella effeithlonrwydd a chynildeb i gynnal a datblygu ei weithlu ac asedau eraill, a chyflawni ei swyddogaethau i'r cyhoedd.

47 Dylai'r datganiad hefyd roi adroddiad ar berfformiad yn y flwyddyn ddiwethaf mewn cymhariaeth â'r rhagdybiaethau a wnaed ar gyfer y flwyddyn honno yn natganiad rheoli blaenorol y llu heddlu.

48 Byddwn yn gweithio dros y misoedd nesaf i ddatblygu templed ar gyfer y datganiadau hyn. Y nod yw i'r datganiadau roi swm sylweddol o'r wybodaeth ffeithiol a fydd yn sail i arolygiadau PEEL, a thrwy hynny leihau'r gofynion ar luoedd heddlu wrth i'r datganiad rheoli llu heddlu aeddfedu. Byddwn yn ychwanegu at ddatganiadau rheoli lluoedd heddlu trwy ddatblygu system sy'n lleihau'r nifer o geisiadau am ddata.

## Adlewyrchu profiad y dioddefwr

49 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod barn dioddefwyr yn cael ei adlewyrchu'n llawn ym mhob asesiad PEEL o safbwynt pa mor dda mae'r lluoedd heddlu yn cwrdd ag anghenion eu dioddefwyr, a sut mae lluoedd heddlu yn datblygu eu gwasanaethau mewn ymateb i'r adborth gan ddioddefwyr. Bydd asesiadau'n ystyried pa mor dda mae lluoedd heddlu yn glynu at God Ymarfer Dioddefwyr Troseddau hefyd, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013 gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.[9]

50 Rydym eisoes wedi cynnal peth gwaith ymgynghori ar sut y gallwn ddeall profiad y dioddefwr yn well trwy arolygu. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnig y dull canlynol:

- bydd data meintiol ac ansoddol yn cael ei ddefnyddio gyda'i gilydd;
- bydd asesiadau yn ystyried sut y mae lluoedd heddlu yn gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o ddioddefwyr; a

[9] *Cod Ymarfer Dioddefwyr Troseddau*, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llundain, 2013.

- bydd asesiadau yn trafod prosesau, canlyniadau a sut y mae gwasanaethau yn cael eu gwella.

51 Byddwn yn lleihau'r gofynion fydd yn cael eu rhoi ar luoedd heddlu trwy adeiladu ar ddata bodlonrwydd dioddefwyr y maen nhw a'r comisiynwyr yn ei gasglu yn barod. Rydym yn sylweddoli bod comisiynwyr ar hyn o bryd yn asesu'r galw lleol am wasanaethau cefnogi dioddefwyr cyn cymryd cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr yn Hydref 2014, a phan fydd hynny'n ymarferol byddwn yn tynnu ar wybodaeth fydd yn dod ar gael trwy'r broses honno.

52 Mae HMIC yn cydnabod bod cyfyngiadau ar y data sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd gan luoedd heddlu. Yn ôl y canllawiau cenedlaethol ar gyfer arolygon dioddefwyr dim ond i ddioddefwyr troseddau treisgar, byrgleriaeth, troseddau ceir a throseddau hiliol y gofynnir am eu barn. Yn ychwanegol, nid yw arolygon dioddefwyr yn cynnwys dioddefwyr troseddau rhywiol, trais domestig a'r rhai sydd dan 16 oed. O ganlyniad i hyn, bydd HMIC yn defnyddio ystod o dechnegau i gasglu gwybodaeth ansoddol a chyd-destun, megis ymgynghori â grwpiau ffocws a fforymau ar-lein. Bydd HMIC yn ymgysylltu â'r sector gwirfoddol i wella ansawdd y data a gesglir ac i helpu gyda'r gwaith o gyrraedd y dioddefwyr hynny sy'n llai tebygol o ymgysylltu â'r heddlu.

## Sicrhau ansawdd a chymedroli

53 Mae HMIC wedi ymrwymo i sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnwys fel rhan o'r broses asesu PEEL ar adegau allweddol. Mae hyn yn cynnwys datblygu a chyhoeddi ein meini prawf dyfarnu a'n prosesau cymedroli. Bydd y rhain yn helpu i luoedd heddlu ddeall yn glir beth i'w ddisgwyl gennym ni a beth fyddwn ninnau yn ein tro yn ei ddisgwyl ganddyn nhw. Bydd pob arolygiad yn destun cymedroli cadarn fel bod lluoedd heddlu yn cael eu hasesu a'u dyfarnu'n gyson.

54 Byddwn yn gofyn i'r cyhoedd bob blwyddyn a yw asesiadau PEEL yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i'w hysbysu ynglŷn â pha mor dda yw perfformiad eu llu heddlu. Byddwn yn datblygu manylion y gwerthusiad dros y misoedd nesaf, a bydd yn cynnwys cael adborth llawn a di-flewyn ar dafod gan bob llu heddlu ar ôl pob arolygiad i ddynodi'r hyn a weithiodd yn dda a'r hyn a allai fod wedi cael ei wneud yn well.

## Datblygu a chyhoeddi adroddiad

55 Mae'r cyhoedd yn ganolog i'n gwaith, a bydd y modd y byddwn yn cyflwyno'n canlyniadau, dyfarniadau ac argymhellion i'r cyhoedd yn allweddol i'n gallu i gwrdd â'n hamcanion o wella atebolrwydd democrataidd effeithiol. Rhaid

dylunio’n hadroddiadau hefyd fel bod lluoedd heddlu yn gweld yn glir beth sydd angen ei wella.

56 Cyflwynir ein hadroddiadau mewn amryw o ffurfiau er mwyn cwrdd ag anghenion y gwahanol gynulleidfaoedd hyn. Bydd y rhain yn cynnwys:

- adroddiad yn crynhoi'r prif ddiffygion ar draws yr holl luoedd heddlu;
- cynnwys ar ein gwefan sy'n rhoi mynediad rhwydd at ragor o fanylion; a
- disgrifiadau byrion ar gyfer y cyfryngau lleol ac eraill sydd â diddordeb, megis cynghorwyr lleol.

57 Dylanwadodd polau piniwn a gynhaliwyd gan YouGov dros HMIC yng nghyswllt pa wybodaeth am blismona sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd ar ein penderfyniadau ar fanylder y modd y byddwn yn rhoi adroddiadau a byddant yn parhau i wneud hynny. Darganfu'r polau piniwn:

- bod cyfryngau lleol yn cael eu hystyried yn ffynhonnell wybodaeth hanfodol am waith yr heddlu. Dywedodd y bobl y byddent yn edrych ar wefan y llu heddlu neu yn y cyfryngau lleol petaent am chwilio am wybodaeth am berfformiad yr heddlu;
- roedd cyfraddau ac ystadegau troseddu yn amlwg iawn yn yr ymatebion am y mathau o wybodaeth y byddai pobl yn eu gweld yn fwyaf diddorol. Yr agweddau o blismona oedd o fwyaf o ddiddordeb o ran gwybodaeth am berfformiad oedd sut y mae'r heddlu yn ymateb pan ofynnir iddynt am help, sut y mae'r heddlu'n ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac ymchwilio i droseddau; a
- theimlai 71% o'r rhai a holwyd ei bod yn bwysig cael gwybodaeth a yw perfformiad llu heddlu yn gwella neu'n gwaethygu. Roedd testun disgrifiadol ar gryfderau a gwendidau'r heddlu o ddiddordeb i 63% o'r bobl.

58 Wrth i ni eu datblygu, byddwn yn profi ein hadroddiadau gydag amrywiaeth o bobl â diddordeb – gan gynnwys y cyhoedd a lluoedd heddlu – er mwyn iddynt gwrdd ag anghenion y rhai fydd yn eu defnyddio.

## Sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth

59 Mae cynnydd sylweddol fel hyn yn ein gwaith yn golygu bod arnom angen rhagor o bobl. Ein prif angen fydd cynnydd yn ein staff arolygu, yn ogystal â chefnogaeth arbenigol fel timau cyfathrebu a dadansoddi. Rydym wedi recriwtio o luoedd heddlu a'r gwasanaeth sifil.

60 Byddwn yn cynnig rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i'r holl staff newydd. Bydd hyn yn cynnwys cwrs arolygu y bydd staff yn ei gwblhau cyn cymryd rhan mewn arolygiadau. Bydd yr hyfforddiant arolygu newydd yn canolbwyntio ar sgiliau arbenigol: cyfweld, hwyluso grwpiau ffocws a drafftio adroddiadau, a

bydd elfen ymarferol sylweddol ynddo. Ein nod yn y tymor hir yw i HMIC gael cwrs hyfforddi arolygu wedi ei achredu'n allanol, ac mae'r gwaith i gyflawni hyn ar y gweill.

61 Bydd HMIC yn parhau i ddefnyddio sawl math o arolygwr cymheiriaid: arbenigwyr ar destunau'r llu heddlu ac arbenigwyr o'r sector gwirfoddol cymunedol a phartneriaid lleol sy'n cynnig gwasanaethau cyhoeddus. Defnyddiwyd arolygwyr cymheiriaid yn llwyddiannus hyd yn hyn ac rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol am y gwerth y maen nhw wedi ei ychwanegu. Mae'r adborth yn cynnwys: cael persbectif ffres a gwahanol, dwyn arbenigedd ychwanegol i mewn a herio'r llu heddlu ac HMIC ar eu dulliau. Byddwn yn datblygu polisi i wneud y defnydd gorau o arolygwyr cymheiriaid.

**C7. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dull a gynigiwn ar gyfer casglu tystiolaeth?**

**C8. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dull a gynigiwn ar gyfer casglu gwybodaeth gan ddioddefwyr?**

**C9. Beth arall ddylem ni ystyried ei wneud er mwyn i'r asesiadau PEEL fod mor deg â phosib?**

**C10. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dull a gynigiwn ar gyfer rhoi adroddiadau i'r cyhoedd?**

# Asesu cyfamserol

62 Nid yw'r holl staff y bydd arnom eu hangen ar gyfer rhaglen PEEL yn eu lle eto, ac felly ni fydd gennym yr amser na'r gallu i gynnal asesiadau PEEL llawn eleni. Byddwn felly yn cynnal asesiad PEEL cyfamserol, gan ddefnyddio'r tair thema effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb, a bydd yr asesiad yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd Tachwedd 2014.

63 Mae nifer o ffyrdd y bydd yr asesiad cyfamserol yn hwyluso cyflawni a gweithredu nodau ac egwyddorion y rhaglen asesu PEEL. Byddwn yn cyflwyno gwybodaeth i'r cyhoedd am berfformiad pob llu heddlu, gan roi sicrwydd am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd plismona yng Nghymru a Lloegr i gefnogi atebolrwydd democrataidd. Byddwn yn seilio'r prif ganfyddiadau ac argymhellion ar arolygiadau lluoedd heddlu a gynhaliwyd dros y 12 mis diwethaf, a thrwy hynny arolygu mewn ffordd sy'n arwain at welliant gwerth chweil mewn plismona. Byddwn yn cymryd canfyddiadau lluoedd heddlu unigol, casgliadau cyffredinol am bob thema a chanlyniadau adroddiadau thematig dros y 12 mis diwethaf i gynnig darlun cenedlaethol o'r materion sy'n dod i'r amlwg i gynorthwyo i ddynodi problemau yn gynnar a lleihau'r perygl o fethu.

64 Bydd yr asesiad cyfamserol yn sail i ddatblygu asesiadau llawn ac yn rhoi cyfle i brofi methodoleg newydd. Byddwn hefyd yn dysgu trwy ymateb lluoedd heddlu, y cyhoedd, y cyfryngau, gwleidyddion a rhai eraill sydd â diddordeb fel ein bod yn gallu gwella asesiadau PEEL yn y dyfodol, yn arbennig yr asesiad llawn a drefnwyd ar gyfer Tachwedd 2015.

65 Gan nad yw ein methodoleg ar gyfer y rhaglen asesiadau PEEL wedi datblygu'n llawn eto, ni all asesiadau cyfamserol fod mor gynhwysfawr am bob llu heddlu ag y bydd ein hasesiad yn 2015. Mae'r rhaglen asesiadau PEEL yn cael ei datblygu ar hyn o bryd oherwydd nad oes un darlun cynhwysfawr a llawn o luoedd heddlu unigol nac o blismona cenedlaethol ar gael. Mae'r broses o ddylunio'r asesiad cyfamserol wedi gwneud i ni ddwysau ein ffocws ar beth sydd angen i ni ei wneud i sicrhau bod gennym wybodaeth gadarn am gyflwr yr heddlu.

66 Byddwn yn ymgorffori prif ganfyddiadau ac argymhellion arolygon eraill yr ydym wedi eu cynnal dros y 12 mis diwethaf yn yr asesiad cyfamserol, gan gynnwys y rhai am uniondeb data troseddau, gwneud y defnydd gorau o amser yr heddlu a cham-drin domestig. Gwneir dyfarniadau pan gynlluniwyd arolygiadau lluoedd heddlu gyda'r bwriad hwnnw, yn benodol arolygiadau lluoedd heddlu am roi gwerth ar 4 yr heddlu, troseddau, ac unplygrwydd a llygredd yn yr heddlu. Byddwn hefyd yn cynnwys yr arolygiadau hynny nad

ydynt wedi cynnwys y 43 llu heddlu i gyd ond sydd er hynny yn berthnasol i roi darlun mwy cywir i'r lluoedd heddlu dan sylw.

67 Bydd yr asesiad cyfamserol yn cynnig asesiad unigol ar gyfer pob un o'r 43 llu heddlu yn ogystal â throsolwg o blismona yng Nghymru a Lloegr. Bydd yr asesiad yn cynnwys y canlynol.

- Asesiadau o'r 43 llu heddlu i gyd. Bydd y rhain yn tynnu gwybodaeth allan o adroddiadau diweddar a newydd i lunio un adroddiad ar gyfer y llu heddlu. Y brif gynulleidfa ar gyfer yr adroddiadau hyn fydd y cyhoedd a bydd yn rhoi gwybodaeth ar ba mor dda y mae eu llu heddlu yn perfformio o ran nifer fechan o gategorïau o ran gweithgaredd ac asesiadau'r heddlu. Pan fydd yn addas, bydd yr adroddiadau yn cysylltu ag arolygiadau diweddar a newydd ar y llu heddlu.

- Crynodebau themâu cenedlaethol. Bydd tri adroddiad cryno cenedlaethol ar bob thema: effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb. Byddant yn rhoi crynodeb o ba mor dda y byddwn yn barnu y mae lluoedd heddlu yn perfformio ac yn rhoi rhywfaint o'r manylion sy'n sail i'r trosolwg cenedlaethol.

- Trosolwg cenedlaethol. Bydd hwn yn tynnu gwybodaeth o'r crynodebau themâu cenedlaethol ac arolygiadau eraill a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

68 Byddwn yn adlewyrchu'r adborth o'r ymgynghoriad hwn yn ein hasesiad cyfamserol pan fydd hynny'n bosibl yn yr amser sydd ar gael.

# Yr ymgynghoriad

69 Ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghorol hon, bydd HMIC yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhai eraill sydd â diddordeb mewn amrywiaeth o ffyrdd. Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau wedi eu targedu gan gynnwys cyfathrebu electronig a chysylltiadau wyneb yn wyneb i gyrraedd cymaint o bobl a sefydliadau ag sy'n bosibl.

70 Nod yr ymgynghoriad yw:

- sicrhau bod y cynulleidfaoedd targed yn deall – ac yn cael cyfle i roi sylw ar – y dull arfaethedig;
- ymgysylltu mewn nifer o ffyrdd â gwahanol bobl a sefydliadau;
- defnyddio cyfarfodydd y mae HMIC eisoes yn eu cynnal gyda phartïon sydd â diddordeb i gynnig fforwm i ymgysylltu ar y dewis gorau; a
- sicrhau bod y cyhoedd a phartïon eraill sydd â diddordeb yn cael y wybodaeth y mae arnynt ei hangen i ymateb yn llawn i'r ymgynghoriad cyhoeddus.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

C1. Beth yw'ch barn chi am y dull a gynigir? Sut ellid ei wella?

C2. A oes unrhyw agweddau eraill o waith yr heddlu yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys mewn arolygiadau PEEL? Os felly, pa rai ydynt?

C3. A ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i ddefnyddio pedwar categori ar gyfer dyfarnu? Os nad ydych, sut ellid ei wella?

C4. A ydych chi'n cytuno â'r dull a gynigir ar gyfer y lluoedd heddlu hynny sy'n cael dyfarniad eu bod yn annigonol? Sut ellid ei wella?

C5. A oes yna unrhyw beth arall y dylem ei gynnwys yn ein hargymhellion i sicrhau y byddent yn arwain at welliant?

C6. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dull a gynigiwn i arolygu trefniadau llunio partneriaeth a chydweithio?

C7. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dull a gynigiwn ar gyfer casglu tystiolaeth?

C8. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dull a gynigiwn ar gyfer casglu gwybodaeth gan ddioddefwyr?

C9. Beth arall ddylem ni ystyried ei wneud er mwyn i'r asesiadau PEEL fod mor deg â phosib?

C10. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dull a gynigiwn ar gyfer rhoi adroddiadau i'r cyhoedd?

## Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Cyflwynwch eich atebion i'r cwestiynau hyn, ynghyd ag unrhyw sylwadau eraill sydd gennych, drwy e-bost i haveyoursay@hmic.gsi.gov.uk erbyn dydd Gwener 12 Medi 2014. Os byddai'n well gennych, gallwch bostio'ch ymatebion at y Chief Operating Officer, HMIC, 6th Floor, Globe House, 89 Eccleston Square, London, SW1V 1PN.

Os bydd gennych gŵyn neu sylw am ddull yr HMIC o ymgynghori, anfonwch e-bost i haveyoursay@hmic.gsi.gov.uk.

## Sut yr adolygir yr ymatebion i'r ymgynghoriad

Bydd Prif Arolygydd Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn ystyried barn ymatebwyr ac, os bydd yn briodol, yn cyfleu'r sylwadau hynny yn y fethodoleg fel y bydd yn datblygu.

Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad ar gael ar wefan HMIC yn www.hmic.gov.uk/consultations.

Cyflwynir ein hagwedd at ddatgelu ymatebion yn Atodiad A.

# Atodiad A Ymatebion – cyfrinachedd ac ymwadiad

Gall gwybodaeth a ddarparir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â chyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 [FOIA] a Deddf Diogelu Data 1998 [DPA]).

Os ydych eisiau i wybodaeth rydych yn ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, dan yr FOIA, bod trefn statudol a Chod Ymarfer y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â hwy ac sy'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymiadau cyfrinachedd.

Oherwydd hyn byddai o gymorth pe gallech egluro inni pam rydych yn ystyried bod yr wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os derbyniwn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad awtomatig ynghylch cyfrinachedd a gynhyrchir gan eich system TG, os byddwch yn anfon e-bost, ynddo ei hunan, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo HMIC.

Bydd HMIC yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Gan amlaf bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydydd parti.

# Atodiad B: Egwyddorion dylunio

| Cyfeirnod | Meini Prawf | Disgrifiad |
|---|---|---|
| *Cysylltiedig â nodau* | | |
| 1 | Cefnogi atebolrwydd | Dylai cynigion gael eu cynllunio i hwyluso atebolrwydd mewn plismona. Er mwyn i gynnig fodloni'r maen prawf hwn, dylid cael tystiolaeth sy'n dangos ei fod yn debygol o hwyluso atebolrwydd (yn hytrach na honiad y bydd). |
| 2 | Hwyluso gwelliant | Dylai cynigion gael eu cynllunio i hwyluso gwelliant mewn plismona. Er mwyn i gynnig fodloni'r maen prawf hwn, dylid cael tystiolaeth sy'n dangos ei fod yn debygol o helpu lluoedd heddlu neu gomisiynwyr i wneud gwelliannau i'r gwasanaethau y maent yn eu darparu neu yn eu goruchwylio. |
| 3 | Yn helpu i ddynodi methiant cyn iddo ddigwydd | Dylai cynigion gael eu cynllunio i ddynodi methiant yng ngweithgaredd yr heddlu cyn iddo ddigwydd. Er mwyn i gynnig fodloni'r maen prawf hwn, dylid cael tystiolaeth sy'n dangos y bydd yn caniatáu i ni ganfod methiant tebygol cyn iddo ddigwydd. |
| 4 | Yn cefnogi manteision eraill | Dylai cynigion gael eu cynllunio i gyflawni un neu fwy o amcanion eraill yr asesiadau. |
| *Asesu cysylltiedig â nodweddion* | | |
| 5 | Er budd y cyhoedd | Dylai cynigion gael eu hanelu at sicrhau bod budd y cyhoedd yn ganolog i'r asesiadau. Er mwyn i gynnig fodloni'r maen prawf hwn, rhaid iddo fod wedi ei seilio yn gadarn yn yr hyn sydd er budd i'r cyhoedd, hyd yn oed os bydd hynny ar draul budd y llu heddlu, y comisiynwyr, y llywodraeth neu unrhyw sefydliad plismona arall. |
| 6 | Yn cefnogi asesiad eang ar weithgaredd plismona | Dylai cynigion gael eu hanelu at sicrhau bod yr asesiadau yn ymdrin â holl amrywiaeth gweithgaredd plismona. |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Yn dangos beth sy'n digwydd yn y llu heddlu | Dylai cynigion gael eu hanelu at sicrhau bod yr asesiadau yn datgelu beth sy'n digwydd mewn gwirionedd. Er mwyn i gynnig fodloni'r maen prawf hwn, rhaid iddo ddangos sut y bydd yn cefnogi datgelu'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu mewn gwirionedd, nid dim ond yr hyn sy'n ymddangos fel petai'n cael ei ddarparu. |
| 8 | Yn gyson | Dylai cynigion gael eu hanelu at sicrhau bod yr asesiadau yn gyson, rhwng lluoedd heddlu, rhwng gwahanol rannau o'r asesiad, a thros amser. |
| 9 | Ar sail tystiolaeth ac y gellir eu hesbonio | Dylai cynigion gael eu hanelu at sicrhau bod yr asesiadau ar sail tystiolaeth. |
| 10 | Yn ystyried blaenoriaethau lleol a'r gwahaniaethau cyd-destunol rhwng lluoedd heddlu | Dylai cynigion gael eu hanelu at sicrhau bod yr asesiadau yn ystyried blaenoriaethau lleol, a'r gwahaniaethau rhwng lluoedd heddlu (h.y. y rhai nad oes ganddynt fawr neu ddim rheolaeth drostynt). |
| 11 | Y manteision yn gwrthbwyso'r costau | Dylai cynigion gael eu hanelu at sicrhau bod manteision casglu tystiolaeth a gwneud asesiadau (i'r cyhoedd a'r gwasanaeth heddlu, ac eraill) yn gwrthbwyso'r costau (i HMIC ac i'r gwasanaeth). |
| 12 | Yn dynodi'r da yn ogystal â'r drwg | Dylai cynigion gael eu hanelu at sicrhau bod yr asesiadau yn dynodi arfer da yn ogystal â methiannau. |
| 13 | Yn osgoi canlyniadau nas bwriadwyd | Er mwyn i gynnig fodloni'r maen prawf hwn, rhaid bod wedi dynodi canlyniadau anfwriadol posibl gweithredu'r cynnig. Gall y rhain fod yn ganlyniadau nas bwriadwyd i weithredoedd tebygol yr heddlu, neu'r effeithiau ar y cyhoedd. |
| *Datblygu cysylltiedig â nodweddion* | | |
| 14 | Ar sail barn y cyhoedd | Er mwyn i gynnig fodloni'r maen prawf hwn, dylid bod wedi ystyried barn y cyhoedd (gan gynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, dioddefwyr troseddau, a/neu gynrychiolwyr fel cynghorwyr lleol). |
| 15 | Ar sail barn y comisiynwyr heddlu a throseddu | Er mwyn i gynnig fodloni'r maen prawf hwn, dylid bod wedi ystyried barn y comisiynwyr am y cynnig. |

| | | |
|---|---|---|
| 16 | Yn seiliedig ar farn y gwasanaeth | Er mwyn i gynnig fodloni'r maen prawf hwn, dylid bod wedi ystyried barn y gwasanaeth (gan gynnwys prif swyddogion, arbenigwyr technegol, y Coleg Plismona, a staff rheng flaen) am y cynnig. |
| 17 | Yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd yn y gorffennol, ac o fannau eraill | Er mwyn i gynnig fodloni'r maen prawf hwn, bydd unrhyw beth perthnasol a ddysgwyd o hanes (e.e. dulliau yn y gorffennol a ddefnyddiwyd i asesu'r heddlu) ac o sectorau eraill (e.e. dulliau arolygiaethau eraill a chyrff cyfatebol). |
| 18 | Wedi ei werthuso | Er mwyn i gynnig fodloni'r maen prawf hwn, rhaid iddi fod yn bosibl i HMIC werthuso effeithiolrwydd y cynnig ar ôl iddo gael ei weithredu. |
| 19 | Amserol | Er mwyn i gynnig fodloni'r maen prawf hwn, rhaid iddi fod yn bosibl ei weithredu yn yr amserlen ofynnol ar gyfer y rhaglen. |
| 20 | Yn addas ar gyfer y dyfodol | Er mwyn i gynnig fodloni'r maen prawf hwn, dylid cael rheswm da i gredu na fydd datblygiadau yn y dyfodol (e.e. materion er budd y cyhoedd, mewn plismona, ym mholisi'r llywodraeth ac yn HMIC) yn atal y cynnig rhag cael ei weithredu yn llwyddiannus yn y tymor hirach. |